Ffeithiau allweddol – Valproate▼ a Beichiogrwydd

Enw: Dyddiad:

- Mae Valproate yn feddyginiaeth effeithiol a ddefnyddir i drin epilepsi ac anhwylder deubegwn.
- Gall Valproate niweidio plentyn heb ei eni'n ddifrifol o'i gymryd yn ystod beichiogrwydd ac ni ddylai menywod na merched ei gymryd oni bai na fydd unrhyw beth arall yn gweithio.
- Wrth gymryd valproate, defnyddiwch ddull atal cenhedlu dibynadwy fel na fyddwch yn dod yn feichiog yn anfwriadol.

▼ **Mae'r feddyginiaeth yn amodol i fonitro atodol. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer nodi gwybodaeth ddiogelwch newydd yn gyflym. Gallwch helpu trwy adrodd am unrhyw sgìl effeithiau y gallech eu cael. Gweler www.mhra.gov.uk/yellowcard am sut i adrodd ar sgìl effeithiau.**

Beth sy'n rhaid i chi wneud

- Siaradwch gyda'ch meddyg os ydych chi'n ystyried cael babi, a **pheidiwch** â stopio defnyddio dulliau atal cenhedlu nes eich bod wedi gwneud hynny.
- Dywedwch wrth eich meddyg ar unwaith os ydych chi'n meddwl y gallech fod yn feichiog neu'n gwybod eich bod yn feichiog.
- Peidiwch byth â stopio cymryd valproate oni bai fod eich meddyg yn dweud wrthych chi i wneud hynny gan y gallai'ch cyflwr waethygu.

Cadwch y cerdyn hwn yn ddiogel fel eich bod yn wastad yn gwybod beth i'w wneud.

SAGB.VPA.15.12.1440h

Mawrth 2016